O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2020 Rhif 429 (Cy. 96)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyfnewidfa Llan-ffwyst i Gylchfan Hardwick, y Fenni, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2020

Gwnaed	*15 Ebrill 2020*
Yn dod i rym	*20 Ebrill 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyfnewidfa Llan-ffwyst i Gylchfan Hardwick, y Fenni, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 20 Ebrill 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 20 Ebrill 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cerbytffordd tua'r dwyrain Cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Llan-ffwyst hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Hardwick, y Fenni, Sir Fynwy.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 or' Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

5. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd yr arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 15 Ebrill 2020

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru